

Cyngor Cymuned Llanelian (242)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Ebrill 30, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Hefina Williams (Cadeirydd) Helen Woodcock
T Elfyn Hughes Gordon Hayes
Thomas D Jones Dafydd Griffiths
Helen Hughes Glenys Jones
Cyng. Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: David Gerrard

Cyn dechrau'r cyfarfod yn swyddogol, hoffai'r Cadeirydd ar ran aelodau'r Cyngor estyn cydymdeimlad i David Gerrard a'i deulu ar brofedigaeth ei chwaer, a hefyd i'r Clerc yn dilyn marwolaeth sydyn ei nain.

Gan mai hwn oedd ei chyfarfod diwethaf yn Gadeirydd y Cyngor, fe gymerodd Hefina Williams y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y tair mlynedd diwethaf. Hoffai gymryd y cyfle hefyd i ddymuno'n dda i Helen Woodcock yn y Gadair, a phwy bynnag fydd yn cael eu hethol yn Is-gadeirydd o fis Mai.

Hoffai'r Cyng Aled Morris Jones ddiolch i'r Cyngor am eu cefnogaeth ac am y fraint o'u cynrychioli yn y Cyngor Sir dros y naw mlynedd diwethaf. Hoffai ddymuno'n dda i'r tri fydd yn cael eu ethol i gynrychioli Ward Twrcelyn yn yr etholiadau ddiwedd yr wythnos. Fe gymerodd Hefina Williams y cyfle i ddiolch i'r Cyng Aled Morris Jones ar ran y Cyngor am ei gydweithio a'i gefnogaeth dros y ddegawd ddiwethaf. Fe adawodd y Cyng Aled Morris Jones y cyfarfod am 7.10 or gloch.

1 Datgan Diddordeb

Cais cynllunio ger Point Leinws – TD Jones

Cais am Arian i'r Neuadd – Glenys Jones, TD Jones, Gordon Hayes, Helen Hughes

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir, Cynnig TD Jones, Eilio Helen Woodcock

3 Materion yn codi o'r Cofnodion

3.1 Cyfraniad o Gronfa Ty Moel i'r Neuadd Bentref – Cadeirwyd y mater hwn gan Helen Hughes. Ar ol trafod, fe gytunwyd bod y Neuadd yn bwysig iawn i'r gymuned, ac o fudd i nifer o bobl a grwpiau gwahanol a phenderfynnwyd ddynodi £600 tuag at waith adnewyddu yn y Neuadd. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Helen Woodcock a Hefina Williams. CET

3.2 Bin baw cwn – mae bin newydd wedi ei osod erbyn hyn.

4 Cynllunio

4.1 Fferm Wynt Rhiannon – fe gafodd y diwrnod agored ei ohurio nes ddiwedd Mai gan nad yw'r wybodaeth sydd i'w gyflwyno yn barod eto. Y gobaith yw y bydd y digwyddiad yn cymryd lle yn y Neuadd Bentref 28/5/2013.

4.2 Adnewyddu cais gwaith nwy ar hen safle Octel, Amlwch – fe gafodd y cais gwreiddiol ei gymeradwyo 31/10/2006 (Cofnodion 189). Cytuno sefyll wrth y penderfyniad gwreiddiol.

5 Cae Chwarae

5.1 Mae'r Clerc wedi darllen geirfa y polisi yswiriant par y cae chwarae. Mae angen un archwiliad blynyddol, ac yna rhywun i ymweld a'r lle yn reolaidd a chadw cofnod o hynnu. Cytuno bod angen dyddiad ar gyfer cyfarfod is-bwyllgor yn fuan. CET

6 Unrhyw Faterion Eraill

6.1 Cyfrifon 2012/13 – Mae'r Clerc wedi paratoi'r cyfrifon ar gyfer yr archwiliad ddechrau'r mis nesaf, croeso i unrhyw un oedd am gael golwg wneud hynnu.

6.2 Gofynnion yr Archwiliwr – Mae adroddiad byr wedi ei baratoi gan y Clerc mewn ymateb i ofynnion yr archwiliwr, rhoddwyd cyfle i bawb ei ddarllen ac aethpwyd drwyddo fesul dipyn i drafod gwahanol agweddau ohono. Nid oedd unrhyw gwestiynnau yn codi ac roedd pawb yn

hapus a'i gynnwys. (Copi wedi ei arwyddo gan y Cadeirydd a'r Clerc ynghlwm)

- 6.3 Llithfra Llaneilian – fe gafodd cofnodion cyfarfod pwyllgor y llithfra eu dosbarthu ir rheini oedd yn bresennol. Pwyntiau a godwyd o'r Cofnodion –
- Y twll lle bu'r bolard heb unrhywbeth i'w orchuddio yn beryg rhag ofn i unrhywun ddisgyn. Y Clerc i gysylltu a CSYM i dynnu sylw ymhellach. CET
 - Pris gorïad wedi codi eleni i £40 (o £35) bydd hyn yn dod a mwy o arian i'r Cyngor
 - Gosod carreg ar y cylchfan gen y traeth er mwyn stopio pobol rhag parcio arno. Angen caniatad gan John Owen gan mai'r CSYM sydd berchen a'r cylchfan. Efallai bydd cost i hyn. Pawb yn hapus. CET
- 6.4 Cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru – penderfynnwyd beidio ethol un cynrychiolydd a y buasai mod di unrhyw aelod fynychu'r cyfarfodydd.
- 6.4 Swansea Building Society – Mae peth o arian Ty Moel mewn cyfrif gan y SBS, ac mae gofyn cael dau ymddiriedolwr. Ar hyn o bryd Gwyn Roberts a TD Jones sy'n cynrychioli'r Cyngor. Mae G Roberts wedi gofyn bod hyn yn cael ei newid gan nad ydyw yn Clerc bellach. Dymuna TD Jones hefyd basio'r awennau. Penderfynnwyd y dylai Carli Evans Thau yn ei swydd fel Clerc y Cyngor a Hefina Williams gymryd y cyfrifoldeb. Cynnig Helen Woodcock, eilio T Elfyn Hughes. CET
- 6.5 Prosiect Gardd Toprallt – mae Menter Mon wedi gofyn am fwy o ffurflenni gwerthuso wedi eu cwblhau gan aelodau o'r gymuned. Mae'r ffurflenni hynnu wedi eu anfon allan i'r aelodau i'w cwblhau cyn gynted ag sydd bosib.
- 6.6 Blwch Ffon ger y traeth – mae'r gwydr wedi torri ac mae'r blwch yn fler, gofynnwyd pwy sy'n gyfrifol am ei gadw, a sut mae cysylltu a hwy i'w wneud yn ddiogel. Y Clerc i wneud ymholiadau. CET
- 6.7 Cynghorwyr Sirol - bydd tri cynghorydd sirol yn cynrychioli'r ardal o fis Mai ymlaen, tybed sut fydd hyn yn gweithio? Mae'n debyg bydd rhaid disgwyl i wedl pwy fydd yn cael eu ethol.
- 6.8 Cyfarfod nesaf – yn ddibynnol ar y Neuadd, bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Mai 14. Hwn fydd y cyfarfod cyntaf yn dilyn yr etholiad felly bydd angen dewis swyddogion ac arwyddo Cod Ymddygiad ayyb.

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a chloi'r cyfarfod am 7.45yh.